Cod Ymarfer ar Gyfer Aelodau
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Cyflwyniad

1 Pwrpas y Cod hwn yw:

- Rhoi arweiniad i'r Cyngor, aelodau pwyllgorau, uwch reolwyr a phobl eraill sy'n cyfrannu at waith CCAUC ar lefel lywodraethu;

- Rhoi hyder i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ynghylch safon ymddygiad CCAUC.

Cafodd y Cod Ymarfer ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis [Ionawr] 2010 ac mae'n diweddaru'r fersiwn blaenorol a gyhoeddwyd ym 1997. Mae'n seiliedig ar yr Arweiniad ar Godau Ymarfer i Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Hydref 2004, adroddiadau'r Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, ac arweiniad a dderbyniwyd gan adran noddi'r Cyngor yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn nhermau statudol caiff Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ei lywodraethu gan ddarpariaethau Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Nid oes gan y Cod ei hun rym y gyfraith ond mae'n seiliedig ar egwyddorion cyfreithiol sy'n ymwneud ag atebolrwydd aelodau cyrff cyhoeddus ac yn deillio o'r arfer gorau mewn materion cyhoeddus. Mae hi felly'n hanfodol bod pob Aelod o'r Cyngor yn dilyn telerau'r Cod ym mhob agwedd ar eu hymwneud â materion y Cyngor, gan gynnwys eu perthynas gyda chyrff eraill. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos Aelodau y gall eu sefyllfa gael ei pheryglu gan eu perthynas â sefydliadau a gyllidir gan y Cyngor.

Gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus

2 Mae'n rhaid i Aelodau'r Cyngor a staff CCAUC bob amser:

- ddilyn y safonau uchaf o ran priodoldeb yn ymwneud ag **amhleidioldeb, unplygrwydd a gwrthrychedd** mewn perthynas â stiwardiaeth cyllid cyhoeddus a rheoli CCAUC;

- cael y **gwerth mwyaf am arian** drwy sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd fwyaf economaidd, effeithlon ac economaidd, o fewn yr adnoddau sydd ar gael, a dilysu perfformiad yn annibynnol lle bynnag y bo'n ymarferol. Nid yw gwerth am arian yn golygu'r pris isaf: gwerth am arian yw'r cyfuniad optimwm o gostau bywyd cyfan ac ansawdd a fydd yn cwrdd â gofynion y defnyddiwr;

- bod yn **atebol** i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, defnyddwyr gwasanaethau, dinasyddion unigol a staff ar gyfer gweithgareddau'r Cyngor, ei stiwardiaeth o gyllid cyhoeddus ac i ba raddau y bodlonwyd targedau ac amcanion perfformiad allweddol;

- yn unol â pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar **ddidwylledd ac ymatebolrwydd**, cydymffurfio'n llawn ag egwyddorion Cod Ymarfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Hawl i Wybodaeth, a cheisio cyfleu polisïau a phenderfyniadau'r Cyngor i'r sefydliadau a gyllidir ganddo, gan gynnwys, yn benodol, penderfyniadau sy'n gysylltiedig â dyrannu cyllid, er mwyn sicrhau eu bod yn glir ac yn agored.

Perthynas â'r adran noddi

3 Mae Gweinidog adran noddi Llywodraeth Cynulliad Cymru (y Gweinidog) yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am bolisïau a pherfformiad pob corff cyhoeddus a noddir gan yr adran, gan gynnwys eu defnydd o adnoddau a'r fframwaith polisi y maent yn gweithio y tu mewn iddo. Nodir rolau adran noddi Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cyngor mewn Datganiad Rheoli a ategir gan Femorandwm Ariannol sy'n nodi telerau'r Cyngor ar gyfer derbyn a gwario cyllid a ddarperir gan y Gweinidog.

Rôl y Cadeirydd

4 Mae gan y Cadeirydd, yn ogystal â'r Prif Weithredwr lle bo'n briodol, gyfrifoldeb penodol dros ddarparu arweinyddiaeth strategol effeithiol ar faterion megis:

- llunio strategaeth y Cyngor ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau statudol;
- annog safonau uchel o ran priodoldeb, a hyrwyddo defnydd effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau eraill drwy'r sefydliad;
- sicrhau bod y Cyngor, wrth wneud penderfyniadau, yn ystyried yn briodol yr arweiniad a ddarperir gan y Gweinidog neu'r adran noddi;
- trosglwyddo barn y Cyngor i'r cyhoedd yn gyffredinol ac i'r sefydliadau a gyllidir; a
- darparu asesiad o berfformiad Aelodau unigol o'r Cyngor, ar gais, wrth iddynt gael eu hystyried ar gyfer eu hailbenodi i'r Cyngor neu eu penodi i Fwrdd rhyw gorff cyhoeddus arall.

5 Dylai'r Cadeirydd sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn a bod cofnodion y cyfarfodydd yn cofnodi'n gywir y penderfyniadau a wneir a, lle bo'n briodol, barn Aelodau unigol o'r Cyngor.

6 Bydd cyfathrebu rhwng y Cyngor a'r Gweinidog fel rheol drwy'r Cadeirydd ac eithrio pan fydd y Cyngor wedi cytuno y dylai Aelod unigol weithredu ar ei ran. Er hynny, mae gan Aelod unigol yr hawl i weld Gweinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru i drafod unrhyw fater sydd yn ei farn ef/ei barn hi yn codi materion pwysig sy'n gysylltiedig â'i ddyletswyddau ef/ei dyletswyddau hi fel Aelod o'r Cyngor. Yn yr achosion hyn dylid ceisio cytundeb gweddill y Cyngor. Yn y lle cyntaf dylai Aelodau o'r Cyngor drafod unrhyw faterion o'r fath gyda'r Cadeirydd ac os ydynt yn parhau'n anfodlon (neu os yw'r materion yn

ymwneud â'r Cadeirydd) gyda Chyfarwyddwr adran noddi Llywodraeth Cynulliad Cymru a thrwy hwn/hon gyda'r Ysgrifennydd Parhaol i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gweinidog os oes rhaid. Os yw'r Aelod o'r Cyngor yn dymuno mynd â'r mater at y Gweinidog, dylai'r adran noddi sicrhau bod yr Aelod yn cael y cyfle i wneud hyn. Fel rheol, y prif bwynt cyswllt rhwng y corff a'r adran noddi ar faterion pob dydd fydd y Prif Weithredwr neu aelod arall o staff sydd â'r awdurdod i weithredu ar ran y Cyngor.

7 Dylai'r Cadeirydd sicrhau y caiff pob Aelod o'r Cyngor, wrth ymgymryd â swydd, ei friffio'n llawn ar delerau ei benodiad, ac ar ei ddyletswyddau, hawliau a chyfrifoldebau. Bydd gan y Cadeirydd ac Aelodau eraill o'r Cyngor gopi o'r Cod Ymarfer hwn yn ogystal â deunydd cefndirol perthnasol arall gan gynnwys y Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol ar gyfer y Cyngor (gan gynnwys yr atodiadau i'r ddau); ei Gynllun Corfforaethol ac Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon diweddaraf; Memorandwm Llywodraeth Cynulliad Cymru, "Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad"; Canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru i Aelodau Byrddau; nodiadau sy'n disgrifio strwythur trefniadaethol y Cyngor a sail statudol ei weithrediadau; a rheolau a gweithdrefnau'r Cyngor. Dylai'r Cadeirydd annog Aelodau newydd o'r Cyngor i fynychu cwrs sefydlu ar ddyletswyddau aelodau cyrff cyhoeddus neu ryw ffurf addas arall ar raglen sefydlu.

Cyfrifoldebau corfforaethol Aelodau o'r Cyngor

8 Mae gan Aelodau o'r Cyngor gyfrifoldebau corfforaethol dros sicrhau bod CCAUC yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol yn ymwneud â defnyddio cyllid cyhoeddus. Mae cyfrifoldebau pwysig eraill Aelodau o'r Cyngor yn cynnwys:

- sicrhau y dilynir safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol bob amser;
- sefydlu cyfeiriad strategol cyffredinol y sefydliad o fewn y fframwaith polisïau ac adnoddau y cytunwyd arno gyda'r Gweinidog;
- goruchwylio cyflawni canlyniadau a gynlluniwyd drwy fonitro perfformiad yn erbyn amcanion a thargedau strategol y cytunwyd arnynt;
- sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn terfynau ei awdurdod statudol; o fewn terfynau awdurdod dirprwyedig y Cyngor y cytunwyd arnynt gyda'i adran noddi; ac yn unol ag unrhyw amodau eraill sy'n gysylltiedig â defnyddio arian cyhoeddus;
- sicrhau bod y Cyngor, wrth wneud penderfyniadau, wedi ystyried unrhyw arweiniad a gyhoeddwyd gan yr adran noddi;

- llunio strategaeth ar gyfer gweithredu Cod Ymarfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Hawl i Wybodaeth, gan gynnwys ymateb yn brydlon i geisiadau'r cyhoedd am wybodaeth; a

- sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu polisïau amgylcheddol cadarn ac yn cyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd sy'n gydnaws â'r ddyletswydd i hybu datblygiad cynaliadwy fel y nodir yng nghynllun Gweinidogion Cymru.

Cynllunio a rheoli strategol

9 Un o brif dasgau'r Cyngor yw goruchwylio cynhyrchu ei Gynllun Corfforaethol. Mae'r broses o baratoi'r ddogfen hon yn rhoi cyfle i gytuno, gyda'r Gweinidog, neu gyda swyddogion ar ei ran ef neu ar ei rhan hi, y fframwaith polisïau ac adnoddau y bydd y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o fewn iddo; ac i benderfynu ar ei amcanion a thargedau strategol allweddol. Bydd y rhain yn ymwneud â meysydd megis perfformiad y sefydliadau a gyllidir wrth gyflawni eu cenadaethau ac amcanion strategol y Cyngor a sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a gwerth am arian; effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithrediadau'r Cyngor ei hun; ac ansawdd y gwasanaethau y mae'n eu darparu.

Dirprwyo

10 Mae Aelodau'r Cyngor, heblaw am y Prif Weithredwr, yn gwasanaethu ar sail ran-amser. I'r graddau a ganiateir gan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, dirprwyir cyfrifoldeb ar gyfer materion rheoli o ddydd i ddydd i staff cyn belled ag y bo'n ymarferol, o fewn fframwaith o reolaeth strategol a ddeellir yn glir. Bydd y Cyngor yn sicrhau y darperir arweiniad clir ar faterion a ddirprwyir i staff a materion y mae'n rhaid i'r Cyngor benderfynu arnynt. Bydd y rhai olaf yn cynnwys materion strategaeth gorfforaethol; amcanion a thargedau strategol allweddol; penderfyniadau mawr yn ymwneud â defnyddio adnoddau ariannol ac adnoddau eraill; a materion personél gan gynnwys penodiadau allweddol a safonau ymddygiad.

11 Mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn penderfynu dirprwyo, lle mae'r pŵer ganddo i wneud hynny, gyfrifoldeb am faterion penodol i Aelodau unigol gan gynnwys y Prif Weithredwr, neu i bwyllgorau'r Cyngor. Dylai penderfyniadau a wneir gan Aelodau unigol neu bwyllgorau'r Cyngor o dan bwerau a ddirprwyir gael eu cofnodi mewn cofnodion ysgrifenedig a gyflwynir i gyfarfodydd llawn y Cyngor.

Cyfrifoldebau Aelodau unigol o'r Cyngor

12 Dylai Aelodau unigol o'r Cyngor hefyd fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ehangach fel Aelodau o'r Cyngor. Fel eraill sy'n gwasanaethu'r cyhoedd, dylent ddilyn Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a bennwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan). Ceir yr egwyddorion yn Atodiad 1. Mae'n rhaid i Aelodau'r Cyngor

- addo wrth iddynt gael eu penodi i gydymffurfio bob amser â'r Cod Ymarfer hwn ac â rheolau sy'n gysylltiedig â defnyddio arian cyhoeddus;

- gweithredu'n ddidwyll ac er budd y Cyngor;

- peidio â chamddefnyddio gwybodaeth a geir yn ystod eu gwasanaeth cyhoeddus er mwyn elwa'n bersonol neu at ddibenion gwleidyddol, na cheisio defnyddio cyfle gwasanaeth cyhoeddus i hyrwyddo eu buddiannau preifat neu fuddiannau pobl, cwmnïau, busnesau neu sefydliadau eraill; a datgan yn gyhoeddus unrhyw fuddiannau preifat a allai wrthdaro â'u dyletswyddau cyhoeddus;

- parchu cyfrinachedd papurau'r Cyngor hyd nes iddynt gael eu derbyn gan y Cyngor a'u cyhoeddi (h.y. drwy eu rhyddhau ar ôl y cyfarfod neu ar wefan CCAUC);

- sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheolau'r Cyngor ar dderbyn anrhegion a lletygarwch; a

- pheidio ag ymddwyn mewn unrhyw ffordd a fydd yn dwyn anfri ar y Cyngor.

13 Disgwylir i Aelodau'r Cyngor beidio â chymryd swyddi cyflogedig mewn pleidiau gwleidyddol neu ddal swyddi heb gyflog sy'n hynod o sensitif neu â phroffil uchel mewn plaid wleidyddol. Ar wahân i hyn, mae hawl gan Aelodau i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol, ond iddynt fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyhoeddus cyffredinol ac ymddwyn yn briodol, yn enwedig mewn perthynas â gwaith y Cyngor y maent yn Aelodau ohono. Ni ddylent roi areithiau gwleidyddol ar faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y gwaith hynny, na chymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol cysylltiedig.

14 Nid yw'r cyfyngiadau ym mharagraff 13 yn berthnasol i Aelodau o'r Cyngor sy'n gynghorwyr lleol nad ydynt yn perthyn i bleidiau nac i Arglwyddi nad ydynt yn cymryd chwip plaid yn Nhŷ'r Arglwyddi.

15 Gellir tynnu Aelod o'r Cyngor o'i swydd os yw ef neu hi wedi bod yn absennol o gyfarfodydd y Cyngor am gyfnod sy'n hwy na chwe mis yn olynol heb ganiatâd y Cyngor, neu os yw'n analluog neu'n anaddas i gyflawni swyddogaethau Aelod.

Ymdrin â gwrthdrawiadau rhwng buddiannau

16 Dylai'r Cadeirydd ac Aelodau eraill o'r Cyngor ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fusnes a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau fel Aelodau o'r Cyngor drwy gofrestru'r manylion hyn gyda Chlerc y Cyngor. Bydd y Cyngor, mewn ymgynghoriad â'i adran noddi, yn adolygu'n rheolaidd y rheolau ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Cyngor (sydd wedi'u hargraffu yn Atodiad 3 a'u crynhoi isod) sy'n sicrhau y nodir gwrthdrawiadau o'r fath yn gynnar ac y gellir cymryd camau gweithredu priodol i'w datrys.

17 Mae'r rheolau'n cynnwys cadw cofrestr buddiannau sy'n briodol i weithgareddau'r Cyngor. Dylai'r gofrestr yn sicr restru buddiannau ariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol y gallai'r cyhoedd feddwl yn rhesymol y gallent ddylanwadu ar farn Aelodau. Dylai'r gofrestr hefyd gynnwys buddiannau anariannol sydd â chysylltiad agos â gweithgareddau'r Cyngor, a buddiannau aelodau agos o'r teulu a phobl sy'n byw yn yr un cartref â'r Aelod[1].

18 Mae cofrestr buddiannau'r Cyngor ar gael i'r cyhoedd ar wefan CCAUC a nodir sut y gellir ei chyrchu yn yr Adroddiad Blynyddol hefyd. Dylai Aelodau o'r Cyngor ddiweddaru'r gofrestr wrth i newidiadau ddigwydd.

19 Gan nad oes darpariaethau statudol penodol, mae'n ofynnol o dan gyfraith gwlad:

- i aelodau o gyrff cyhoeddus beidio â chymryd rhan mewn trafodaethau neu benderfyniadau ar faterion y mae ganddynt fudd ariannol uniongyrchol ynddynt; a

- phan nad yw budd yn ariannol, y dylai aelodau o gyrff cyhoeddus ystyried a fyddai cymryd rhan mewn trafodaethau neu benderfyniadau ar fater yn awgrymu bod perygl go iawn o ragfarn. Dylid dehongli hyn yn yr ystyr y gallai Aelodau o'r Cyngor edrych yn annheg gyda ffafr, neu heb ffafr, ar achos parti i'r mater dan sylw. Wrth ystyried a oes perygl go iawn o ragfarn yn bodoli mewn perthynas â phenderfyniad penodol, dylai Aelodau asesu a yw'r penderfyniad dan sylw yn debygol o effeithio ar aelod agos o'r teulu, rhywun sy'n byw yn yr un cartref â'r Aelod, neu gwmni, busnes neu sefydliad arall y mae'r Aelod yn gysylltiedig ag ef. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, penderfyniad i wahodd tendrau am gontract lle byddai cwmni yr oedd yr aelod yn gysylltiedig ag ef mewn sefyllfa a oedd yn sylweddol well nag eraill i'w ennill.

Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw'r paragraff hwn yn atal y Cyngor rhag penderfynu rhoi indemniad yn unol â thelerau paragraff 26 isod.

20 Lle, yn unol â'r uchod, nad yw Aelodau'n cymryd rhan mewn trafodaethau neu benderfyniadau ar fater, dylent fel rheol dynnu'n ôl o'r cyfarfod. Dylent wneud hyn oherwydd y gellid meddwl y byddai presenoldeb rhywun a oedd wedi datgan budd yn debygol o ddylanwadu ar farn yr Aelodau eraill sy'n bresennol pe bai'n aros.

---

1 Mae buddiannau ariannol anuniongyrchol yn codi o gysylltiadau â chyrff sydd â budd ariannol uniongyrchol, neu o fod yn bartner busnes i, neu gael eich cyflogi gan rywun â'r fath fudd. Mae buddiannau anariannol yn cynnwys y rhai sy'n codi o aelodaeth o glybiau a sefydliadau eraill. Mae aelodau agos y teulu'n cynnwys partneriaid personol, rhieni, plant (oedolion a rhai dan oed), brodyr, chwiorydd a phartneriaid personol unrhyw un o'r rhain.

21 Dylai'r Cyngor gael cyngor cyfreithiol ar effaith unrhyw ddarpariaethau statudol penodol sy'n berthnasol iddynt. Mewn achosion lle caiff Aelodau o'r Cyngor eu hawdurdodi gan y gyfraith i gynrychioli grŵp y mae penderfyniadau'r Cyngor yn debygol o gael effaith arno, mae'n bosibl y bydd y fframwaith statudol yn caniatáu i Aelodau gymryd rhan, er gwaethaf unrhyw fudd ariannol uniongyrchol sydd ganddynt yn y penderfyniad. Fodd bynnag, ni ddylai'r Cyngor diystyru'r posibilrwydd y gallai darpariaethau statudol penodol osod cyfyngiadau sy'n llymach na'r rhai a ddisgrifir ym mharagraff 19 ar gyfer buddiannau anariannol.

22 Pa un a all Aelodau'r Cyngor gymryd rhan ai peidio mewn trafodaethau neu benderfyniadau ar fater yng ngoleuni'r ystyriaethau uchod, dylent ddatgan cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i gyfarfod ddechrau os oes ganddynt fudd, yn ariannol neu fel arall, mewn mater sy'n cael ei ystyried. Dylent hefyd ddatgelu unrhyw fuddiannau y maent yn ymwybodol ohonynt ar ran aelodau agos y teulu[2] a phobl sy'n byw yn yr un cartref â'r Aelod o'r Cyngor. Yn ogystal, dylai Aelodau o'r Cyngor ystyried a oes angen iddynt ddatgelu buddiannau perthnasol pobl neu sefydliadau eraill y gallai aelodau'r cyhoedd feddwl yn rhesymol y gallent ddylanwadu ar farn yr Aelod.

23 Oherwydd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor ddilyn, ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol, arfer cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, mae'n rhaid i Aelodau o'r Cyngor hwyluso cydymffurfiad â'r angen o dan Safon Adrodd Ariannol 8 i drafodion o bwys â phartïon perthynol gael eu datgelu mewn datganiadau ariannol. Mae "partïon perthynol" yn Safon Adrodd Ariannol 8 yn cynnwys (yn ogystal â chysylltiadau busnes) aelodau agos o deulu unigolyn, a ddiffinnir at bwrpasau'r safon fel aelodau teulu, neu aelodau o'r un cartref, y gellid disgwyl iddynt ddylanwadu ar neu gael eu dylanwadu gan yr unigolyn hwnnw yn eu trafodion gyda'r endid adrodd.

24 Dylai'r Cyngor fabwysiadu mesurau i atal gwrthdrawiadau rhwng buddiannau rhag codi wrth dderbyn penodiadau allanol yn ystod neu ar ôl cyfnod fel Aelod o'r Cyngor, gan gymryd i ystyriaeth arweiniad yr adran noddi.

Atebolrwydd personol Aelodau o'r Cyngor

25 Er ei bod yn debygol y câi unrhyw achosion cyfreithiol a ddechreuir gan drydydd parti eu dwyn yn erbyn y Cyngor, mewn achosion eithriadol gellir dwyn achosion (rhai sifil, neu mewn rhai achosion, rhai troseddol) yn erbyn y Cadeirydd neu Aelodau unigol eraill o'r Cyngor. Er enghraifft, gall Aelod fod yn atebol yn bersonol os yw ef neu hi'n gwneud gosodiad twyllodrus neu esgeulus sy'n achosi colled i drydydd parti. Gall Aelod o'r Cyngor sy'n camddefnyddio gwybodaeth a gafwyd yn rhinwedd ei swydd ef neu ei swydd hi fod yn atebol am dorri cyfrinachedd o dan gyfraith gwlad neu gall fod wedi cyflawni trosedd o dan y ddeddfwriaeth ar fasnachu mewnol.

26 Fodd bynnag, ni fydd yn rhaid i Aelodau unigol o'r Cyngor sy'n ymddwyn yn onest, yn rhesymol, yn ddidwyll a heb esgeulustod wynebu allan o'u

[2] Gweler troednodyn 1 uchod.

hadnoddau personol eu hunain unrhyw rwymedigaeth sifil bersonol sy'n codi wrth iddynt gyflawni neu gyflawni'n honedig eu swyddogaethau ar y Cyngor.

27 Caiff Aelodau o'r Cyngor y mae angen cyngor pellach arnynt ynghylch eu dyletswyddau ymgynghori, lle bo'n briodol, â chynghorwyr cyfreithiol y Cyngor ar yr amod y trafodir hyn â'r Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr yn gyntaf.

Didwylledd ac ymatebolrwydd

28 Dylai Aelodau o'r Cyngor a staff CCAUC gynnal eu busnes â'r cyhoedd mewn ffordd ddidwyll ac ymatebol, i sicrhau cydymffurfiad llawn â Chod Ymarfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Hawl i Wybodaeth. Dylent gymryd i ystyriaeth hyd y bo modd y Safon Arfer Gorau ar gyfer Didwylledd mewn Cyrff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol a chyrff y GIG yn Adroddiad Cyntaf y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Cm 2850-1) a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Yn unol â'r Cod Ymarfer, bydd y Cyngor yn gwneud ei benderfyniadau'n gyhoeddus, heblaw am achosion lle byddai hyn yn gwrthdaro â buddiannau eraill, er enghraifft lle gallai wneud niwed i iechyd ariannol neu fuddiannau masnachol y sefydliadau. I'r perwyl hwn, cyhoeddir papurau'r Cyngor fel rheol ar wefan CCAUC o fewn tair wythnos yn dilyn y cyfarfod. Yn yr un modd, caiff swyddi gwag ar y Cyngor a phwyllgorau a'r buddiannau a gofrestrir gan yr Aelodau eu cyhoeddi.

29 Dylai'r Cyngor sicrhau y gall ddangos ei fod yn defnyddio ei adnoddau'n effeithiol, gyda phriodoldeb, ac fel na ellir ei feirniadu bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion preifat, pleidiol neu wleidyddol. Dylai ymddwyn yn gyson â natur ei gyfrifoldebau a'r angen posibl am gyfrinachedd am resymau masnachol neu resymau eraill, yn ddarostyngedig bob amser i hawliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru i gael gwybodaeth. Dylai fod gweithdrefnau mewnol ar gael i ddelio â chwynion, gan gynnwys y rhai ar fethu â darparu gwybodaeth.

Atebolrwydd ar gyfer cyllid cyhoeddus

30 Mae ar Aelodau o'r Cyngor ddyletswydd i sicrhau y diogelir cyllid cyhoeddus - sydd at y pwrpas hwn yn cynnwys pob math o dderbyniadau o ffioedd, taliadau a ffynonellau eraill - a gwarchod yn briodol asedau a ariannwyd yn gyhoeddus. Mae'n rhaid iddynt gymryd camau priodol i sicrhau bod y Cyngor bob amser yn cynnal ei weithrediadau mor economaidd, effeithlon ac effeithiol ag sy'n bosibl, gan ystyried yn llawn y ddarpariaeth statudol berthnasol a'r arweiniad perthnasol yn Rheoli Arian Cyhoeddus (Cyfrifyddu'r Llywodraeth gynt).

31 Mae Aelodau o'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau nad yw'r corff yn mynd y tu hwnt i'w bwerau neu swyddogaeth, boed wedi'u diffinio'n statudol neu fel arall, neu drwy unrhyw gyfyngiadau ar ei awdurdod i fynd i wariant. Cânt eu cynghori ar y materion hyn gan y Prif Weithredwr a fydd yn cyfeirio at gynghorwyr cyfreithiol y Cyngor pan fydd hyn yn angenrheidiol.

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

32 Fel rhan o'i gyfrifoldebau am stiwardio cyllid cyhoeddus, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cynnwys datganiad llawn ar ei ddefnydd o'r fath adnoddau yn ei Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol. Dylid paratoi'r fath gyfrifon yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb ac unrhyw arweiniad arall a gyhoeddir o dro i dro gan yr adran noddi a'r Trysorlys.

33 Yn amodol ar unrhyw ofynion statudol sy'n bodoli, dylai'r Cyngor anelu at gynhyrchu Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol fel dogfen sengl a dylai roi cyhoeddusrwydd priodol iddi. Os cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol ar wahân, dylai fel arfer gynnwys crynodeb o'r cyfrifon blynyddol o leiaf, a dylai'n sicr roi manylion ar sut i gael y cyfrifon llawn. Dylid cynnwys datganiad gan yr archwilwyr yn y crynodeb i gadarnhau ei fod yn gyson â'r cyfrifon blynyddol. Dylai hefyd ddweud a oedd yr adroddiad ar y cyfrifon blynyddol yn amodol a darparu manylion os oedd.

34 Dylai'r Adroddiad Blynyddol ddarparu disgrifiad llawn o weithgareddau'r Cyngor; datgan i ba raddau y bodlonwyd amcanion strategol allweddol a thargedau ariannol a thargedau perfformiad; rhestru enwau'r Aelodau presennol o'r Cyngor a'r staff uwch; a manylu ar daliadau Aelodau o'r Cyngor a staff uwch yn unol ag Arweiniad y Trysorlys. Dylai'r Adroddiad Blynyddol gynnwys gwybodaeth ar fynediad i gofrestri o fuddiannau yn unol â pharagraff 18 uchod.

Rôl y Prif Weithredwr

35 Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb, o dan y Cyngor, dros drefnu, rheoli a staffio'r Cyngor ac am ei weithdrefnau mewn perthynas â materion ariannol a materion eraill, gan gynnwys ymddygiad a disgyblaeth. Mae hyn yn golygu hyrwyddo drwy arweinyddiaeth ac esiampl y gwerthoedd a geir yn Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Pwyllgor Nolan. Dylai Aelodau'r Cyngor gefnogi'r Prif Weithredwr wrth ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn.

36 Dynodir y Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor. Mae'n gyfrifol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac i Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cynulliad Cymru am yr adnoddau sydd o dan ei reolaeth. Hanfod y rôl yw cyfrifoldeb personol dros briodoldeb a rheoleidd-dra y cyllid cyhoeddus sydd ar gael i'r Cyngor; am gadw cyfrifon priodol; am weinyddiaeth gall a darbodus; am osgoi gwastraff ac afradlonedd; ac am ddefnydd effeithiol ac effeithlon o'r adnoddau sydd o dan ei ofal. Mae ar y Swyddog Cyfrifyddu gyfrifoldeb i sicrhau y rhoddir cyngor priodol i'r Cyngor ar y materion hyn i gyd. Mae cyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn foddhaol yn sylfaenol i rôl y Prif Weithredwr.

37 Gosodir canllawiau manylach ar rôl swyddog cyfrifyddu yn "Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad", sy'n ymdrin ag ymddangos gerbron Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhoddir copi o'r ddogfen hon i bob Aelod o'r Cyngor, fel atodiad i Ddatganiad Rheoli'r Cyngor. Mae llawlyfr y Trysorlys, "Regularity and Propriety", yn disgrifio beth yw ystyr y cysyniadau hyn mewn cyd-destun ariannol. Er y

bwriedir y llawlyfr yn bennaf ar gyfer swyddogion cyfrifyddu, dylai Aelodau o'r Cyngor hefyd ymgyfarwyddo ag ef.

Pwyllgor Archwilio a Risg

38 Bydd Pwyllgor Archwilio a Risg y Cyngor yn cynnwys Aelodau o'r Cyngor yn bennaf a chaiff ei gadeirio fel rheol gan Aelod o'r Cyngor, ar wahân i'r Cadeirydd, sydd â phrofiad o faterion ariannol. Bydd cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gorgyffwrdd â rhai'r Swyddog Cyfrifyddu, a fydd fel rheol yn mynychu pob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg oni bai bod ei berfformiad ei hun yn cael ei drafod. Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ei Gylch Gorchwyl ei hun, a roddir yn Atodiad 2. Bydd Adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael eu derbyn gan y Cyngor. (http://www.hefcw.ac.uk/council_and_committees/committees/audit_risk_committee.aspx).

Y Cyngor fel cyflogwr

39 Bydd y Cyngor yn sicrhau:

- ei fod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol ar gyflogaeth a'i fod yn cyflogi staff sydd wedi'u hyfforddi'n addas - er enghraifft, mewn meysydd allweddol megis cyllid - a fydd yn cyflawni eu dyletswyddau yn unol â'r safonau uchel a ddisgwylir gan staff a gyflogir gan y fath gyrff. Dylai'r holl staff fod yn gyfarwydd â phrif nodau ac amcanion y corff;

- bod CCAUC yn mabwysiadu arferion rheoli sy'n defnyddio adnoddau yn y modd mwyaf economaidd, effeithlon ac effeithiol;

- bod rheolau'r Cyngor ar recriwtio a rheoli staff yn darparu ar gyfer penodi a dyrchafu yn ôl teilyngdod ar sail cyfle cyfartal ar gyfer yr holl ymgeiswyr ac aelodau o staff. Wrth lenwi swyddi staff uwch, bydd y Cyngor yn ei fodloni ei hun yr ystyrir ystod ddigonol o ymgeiswyr cymwys, a dylai bob amser ystyried rhinweddau cystadleuaeth agored lawn. Wrth recriwtio ymgeiswyr allanol, dylid defnyddio hwn fel arfer;

- bod staff ac Aelodau'r Cyngor ei hun yn gallu cyrchu cyngor a chyfleoedd hyfforddi arbenigol er mwyn eu galluogi i ymarfer eu cyfrifoldebau'n effeithiol.

40 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu cod ymddygiad ar gyfer staff CCAUC. Mae'r cod yn ymdrin â threfniadau sy'n galluogi aelodau o staff i godi pryderon ynglŷn â phriodoldeb gyda'r Prif Weithredwr neu gyda Chadeirydd y Cyngor yn y lle cyntaf, ac yn allanol wedyn, os yw'n angenrheidiol, gyda swyddogion yn, er enghraifft, Llywodraeth Cynulliad Cymru. I'r perwyl hwn mae gan CCAUC drefn "chwythu'r chwiban" ar gyfer staff. Mae'n parhau'n ddyletswydd ar y staff i gadw cyfrinachedd ar ôl iddynt adael y Cyngor.

41 Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb dros fonitro perfformiad y Prif Weithredwr a staff uwch eraill. Lle mae telerau ac amodau cyflogaeth y Prif Weithredwr, a staff

uwch eraill, yn cynnwys yr hawl i gael eu hystyried ar gyfer cyflog sy'n gysylltiedig â pherfformiad, a lle caiff taliadau o'r fath eu hasesu gan Aelodau o'r Cyngor, dylai'r Cadeirydd sicrhau bod y wybodaeth a chyngor sy'n ofynnol i wneud y penderfyniadau angenrheidiol ar gael iddynt.

[Ionawr] 2010

Cod Ymarfer **Atodiad 1**

Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus

Anhunanoldeb

Dylai pobl sydd mewn swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau yn nhermau budd y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud hynny er mwyn ennill buddion ariannol neu fuddion materol eraill iddynt hwy eu hunain, eu teuluoedd, na'u ffrindiau.

Unplygrwydd

Ni ddylai pobl sydd mewn swyddi cyhoeddus roi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai ddylanwadu arnynt wrth gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

Gwrthrychedd

Wrth ymgymryd â busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrau a buddiannau, dylai pobl sydd mewn swyddi cyhoeddus wneud dewisiadau ar sail teilyngdod.

Atebolrwydd

Mae pobl sydd mewn swyddi cyhoeddus yn atebol am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd i'r cyhoedd ac mae'n rhaid iddynt ymostwng i'r archwilio sy'n briodol i'w swydd.

Didwylledd

Dylai pobl sydd mewn swyddi cyhoeddus fod mor ddidwyll â phosibl ynglŷn â'r holl benderfyniadau a gweithredoedd a wneir ganddynt. Dylent roi rhesymau dros eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu ar wybodaeth ond pan fydd galw am hynny gan y budd cyhoeddus ehangach.

Gonestrwydd

Mae ar bobl sydd mewn swyddi cyhoeddus ddyletswydd i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n gysylltiedig â'u dyletswyddau cyhoeddus ac i gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdrawiadau sy'n codi mewn ffordd sy'n amddiffyn budd y cyhoedd.

Arweinyddiaeth

Dylai pobl sydd mewn swyddi cyhoeddus hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth ac esiampl.

Cymeradwyodd y Llywodraeth Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus yn "Spending Public Money: Governance and Audit Issues", Cm 3179, Mawrth 1996.

Cod Ymarfer **Atodiad 2**

Cylch Gwaith Pwyllgor Archwilio a Risg CCAUC

http://www.hefcw.ac.uk/council_and_committees/committees/audit_risk_committee.aspx

1 Cyfansoddiad

Pwyllgor y Cyngor i gael ei alw'n Bwyllgor Archwilio a Risg (y Pwyllgor) a sefydlwyd gyda'r cylch gorchwyl a'r rheolau sefydlog canlynol gan benderfyniad y Cyngor dyddiedig y 12fed diwrnod o fis Rhagfyr 2008.

2 Cylch gorchwyl

2.1 Bydd y Pwyllgor yn cynghori a chefnogi'r Cyngor a Swyddog Cyfrifyddu CCAUC gan roi sicrwydd annibynnol iddynt o ran effeithiolrwydd rheolaeth fewnol, llywodraethu corfforaethol a rheolaeth risg y Cyngor. Yn benodol, bydd y Cyngor yn rhoi barn ffurfiol i'r Cyngor ar y cyfrifon a archwiliwyd, gan gynnwys y Datganiad ar Reolaeth Fewnol, cyn iddynt gael eu cymeradwyo. Yn gyson â chyfrifoldebau CCAUC yn y sector addysg uwch, mae'r cylch gwaith hwn yn ymestyn i sicrwydd i'r Cyngor am reolaeth fewnol, llywodraethu corfforaethol a rheolaeth risg gan sefydliadau a chyrff perthynol sy'n derbyn arian gan CCAUC ('sefydliadau a gyllidir').

Bydd y Pwyllgor yn ystyried digonolrwydd llywodraethu corfforaethol, rheolaeth risg a rheolaeth fewnol o fewn CCAUC a'r sefydliadau a gyllidir drwy'r dulliau canlynol:

2.1.1 Rheolaeth fewnol, rheolaeth risg a llywodraethu corfforaethol

a) Adolygu digonolrwydd y strwythurau, prosesau a chyfrifoldebau a fabwysiedir gan reolwyr CCAUC ar gyfer nodi a rheoli risgiau allweddol a wynebir gan CCAUC. Bydd hyn yn cynnwys adolygiadau rheolaidd o gofrestr risgiau corfforaethol CCAUC.

b) Adolygu digonolrwydd pob datganiad datgelu sy'n gysylltiedig â risg a rheoli, gan gynnwys y Datganiad ar Reolaeth Fewnol, ynghyd ag unrhyw ddatganiad Archwilio Mewnol, cyn i'r Cyngor eu cymeradwyo.

c) Monitro effeithiolrwydd dulliau rheoli a sefydlwyd gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i sicrhau y gwarchodir arian cyhoeddus ac y cyflawnir eu nodau, amcanion a thargedau perfformiad allweddol yn y ffordd fwyaf economaidd ac effeithiol.

d) Adolygu canlyniadau asesiadau iechyd ariannol sefydliadol ac adolygiadau risg, a chynghori'r Cyngor ar gamau i'w cymryd.

e) Adolygu digonolrwydd polisïau ar gyfer sicrhau y ceir cydymffurfiad â'r gofynion rheoleiddiol a chyfreithiol perthnasol a chod ymarfer y Cyngor ar gyfer aelodau a'r cod ymddygiad ar gyfer staff.

f) Cynghori'r Cyngor, hyd y bo'n rhesymol bosibl, ar effeithiolrwydd y camau a gymerir i warchod asedau CCAUC ac atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra.

g) Monitro sut mae CCAUC yn trin cwynion a datgeliadau er budd y cyhoedd (‘chwythu’r chwiban’) a wneir i CCAUC yn erbyn sefydliadau a gyllidir.
h) Ystyried canlyniadau unrhyw adolygiadau annibynnol o’r gwasanaethau Archwilio Mewnol a Sicrwydd Sefydliadol.

2.1.2 Archwiliad mewnol

a) Cynghori’r Cyngor ar benodi a thelerau cyflogi archwilwyr mewnol, y ffi archwilio, darparu gwasanaethau nad ydynt yn rhai archwilio ac unrhyw gwestiwn o ymddiswyddo neu ddiswyddo archwilwyr mewnol.
b) Ystyried a chynghori’r Cyngor ar y rhaglen archwilio mewnol flynyddol a thymor hir a’r adnoddau sydd eu hangen i fodloni anghenion archwilio diffiniedig y Cyngor.
c) Ceisio sicrhau bod digon o adnoddau gan y swyddogaeth archwilio mewnol a bod ganddi statws digonol o fewn y sefydliad.
d) Ystyried y datganiad sicrwydd blynyddol ar archwilio mewnol a phob adroddiad, gan gynnwys adroddiadau gwerth am arian, a monitro gweithredu argymhellion yr archwiliad mewnol yn effeithiol.
e) Monitro perfformiad ac effeithiolrwydd y gwasanaeth archwilio mewnol yn flynyddol.

2.1.3 Archwiliad allanol

a) Trafod â’r archwilwyr allanol, cyn i’r archwiliad ddechrau, natur a chwmpas yr archwiliad a cheisio sicrhau cydlyniad rhwng yr archwilwyr mewnol ac allanol.
b) Cynghori’r Cyngor ar dalu’r archwilwyr allanol a chwmpas eu gwaith gan gynnwys unrhyw waith nad yw’n waith archwilio.
c) Ystyried pob adroddiad perthnasol gan Swyddfa Archwilio Cymru a chyrff perthnasol eraill, gan gynnwys adroddiadau ar y cyfrifon, cyflawni gwerth am arian a’r ymateb i unrhyw lythyron rheoli, a monitro gweithrediad effeithiol argymhellion sy’n codi.
d) Monitro perfformiad ac effeithiolrwydd yr archwilwyr allanol yn flynyddol.

2.1.4 Adrodd ariannol

a) Adolygu datganiadau ariannol blynyddol CCAUC cyn eu cyflwyno i’r Cyngor, gan ganolbwyntio’n benodol ar:

- Newidiadau i bolisïau ac arferion cyfrifyddu a chydymffurfio â hwy;
- Meysydd pwysig lle mae angen rhoi barn;
- Addasiadau sylweddol sy’n codi o’r archwiliad; a
- Phenderfynu a ydynt yn gyflawn ac yn gyson â’r wybodaeth sy’n hysbys i Aelodau’r Cyngor.

2.2 Cyfrifoldebau

Ar sail yr ystyriaethau uchod wrth ymgymryd â’i ddyletswyddau, bydd y Pwyllgor yn cynghori’r Cyngor a Swyddog Cyfrifyddu CCAUC ar y materion canlynol:

a) Effeithiolrwydd rheolaeth fewnol, llywodraethu corfforaethol a rheoli risg yn CCAUC a'r sector Addysg Uwch.

b) Cwmpas ac effeithiolrwydd gwasanaethau Archwilio Mewnol a Sicrwydd Sefydliadol CCAUC. Mae hyn yn cynnwys cynllunio archwiliadau, gweithrediadau, cydweithredu ag archwilwyr allanol, gwaith dilynol ac adroddiad blynyddol y Gwasanaeth Sicrwydd.

c) Cwmpas ac effeithiolrwydd gwasanaeth Archwilio Mewnol CCAUC. Mae hyn yn cynnwys cynllunio archwiliadau, gweithrediadau a gwaith dilynol, ac adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol.

d) Y meini prawf ar gyfer dethol a phenodi gwasanaeth archwilio mewnol y Cyngor, gan gynnwys asesu digonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer y gwaith y mae angen ei wneud.

e) Unrhyw adroddiadau perthnasol gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gan gynnwys unrhyw ymateb gan reolwyr.

f) Y trefniadau sydd wedi'u sefydlu i hyrwyddo darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o fewn y Cyngor a'r sector Addysg Uwch.

g) Safonau cyfrifyddu ac archwilio newydd.

h) Arfer da sy'n dod i'r amlwg o ran rheolaeth fewnol, llywodraethu corfforaethol a rheoli risg.

i) Y cynlluniau gwaith sicrwydd sefydliadol a'r cynlluniau gwaith archwilio mewnol.

2.3 Arall

Bydd y Pwyllgor yn ystyried ac yn cynghori'r Cyngor ar faterion yn ymwneud â chyllid, llywodraethu, risg neu reoli pan fydd y Cyngor yn gofyn am hynny. Mae hyn yn cynnwys materion a gyfeirir at y Pwyllgor gan banel cwynion y Cyngor.

3 Rheolau Sefydlog

3.1 Dilynir Rheolau Sefydlog safonol Pwyllgorau CCAUC.

3.2 Aelodaeth a Phresenoldeb

3.2.1 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys hyd at chwe aelod. Dewisir tri aelod o blith aelodau'r Cyngor, a bydd un ohonynt yn Cadeirio'r Pwyllgor; bydd hyd at dri aelod yn bobl a gyfetholir nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor.

3.2.2 Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor yw dau aelod, gan gynnwys y Cadeirydd neu ei enwebai.

3.2.3 Bydd y swyddogion CCAUC canlynol yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor fel arfer:

- Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu;
- Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol;
- Pennaeth Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Gwybodaeth;
- Pennaeth Archwilio Mewnol;
- Pennaeth Adnoddau;
- Uwch Reolwr Sicrwydd Sefydliadol;
- Staff eraill CCAUC, yn ôl dewis y Pwyllgor.

3.2.4 Gwahoddir cynrychiolydd ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor. Bydd cynrychiolydd ar ran yr archwilwyr allanol, Swyddfa Archwilio Cymru, yn mynychu'r cyfarfodydd fel arfer, yn enwedig y cyfarfodydd hynny lle ystyrir adroddiad archwilio allanol.

3.2.5 Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw un neu i bawb o'r rhai sydd fel arfer yn mynychu cyfarfodydd ond heb fod yn aelodau i adael er mwyn hwyluso trafodaeth agored a didwyll ar faterion penodol.

3.2.6 Bydd aelod o'r Gyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn gwasanaethu'r Pwyllgor.

3.2.7 Bydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd yr archwilwyr allanol fynediad rhydd a chyfrinachol i Gadeirydd y Pwyllgor.

3.3 Cyfarfodydd

3.3.1 O leiaf unwaith y flwyddyn bydd y Pwyllgor yn cwrdd â'r Pennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd yr archwilydd allanol heb fod unrhyw swyddogion eraill y Cyngor yn bresennol.

3.3.2 Gall yr archwilydd allanol neu'r Pennaeth Archwilio Mewnol ofyn i'r Pwyllgor drefnu cyfarfod os credant fod angen un.

3.3 Awdurdod

3.4.1 Mae'r Pwyllgor yn gorff cynghori heb unrhyw bwerau gweithredol. Er hynny, fe'i hawdurdodir gan y Cyngor i ymchwilio i unrhyw weithgaredd o fewn ei gylch gorchwyl a, thrwy'r Cadeirydd, i chwilio am unrhyw wybodaeth neu bapurau sydd eu hangen arno gan staff CCAUC, y mae'n ofynnol iddynt gydweithio â'r Pwyllgor wrth iddo gynnal ei ymholiadau, a chan ei archwilwyr (mewnol ac allanol).

Rhagfyr 2008

Cod Ymarfer **Atodiad 3**

Rheolau Ymddygiad Personol ar Gyfer Aelodau Cyngor CCAUC

1 Dylai holl aelodau'r Cyngor ymgyfarwyddo â'r ddogfen hon a hefyd y Cod Ymarfer ar gyfer Aelodau'r Cyngor.

2 Dylai Aelodau o'r Cyngor roi sylw arbennig i egwyddorion priodoldeb, amhleidioldeb, uniondeb a gwrthrychedd ym mhob agwedd ar eu hymwneud â materion y Cyngor.

3 Dylai aelodau'r Cyngor ymddwyn yn briodol wrth ymdrin â materion cyhoeddus. Dylai aelodau sy'n cyfrannu at waith y Cyngor fod â hawl i deimlo eu bod yn cyfrannu'n onest, agored a diduedd, ac ni ddylai fod angen iddynt ystyried a fydd eu sylwadau'n cael eu dyfynnu y tu allan a'u priodoli iddynt hwy. Felly mae'n rhaid i bob Aelod gydnabod bod cynnwys trafodaethau'r Cyngor a'r barnau a fynegir gan aelodau unigol yn gyfrinachol.

4 Mae'r Cyngor yn cynnal ei waith yn agored a hysbysir penderfyniadau'r Cyngor drwy newyddlenni, cylchlythyron a'r wefan. Mae gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gyfrifoldeb arbennig dros sicrhau cyfathrebu â sefydliadau a'r cyhoedd, er bod hyn yn cael ei ddirprwyo'n aml i aelodau staff uwch mewn perthynas â chyfathrebu â sefydliadau ac weithiau mewn perthynas â chyfathrebu â'r cyhoedd. Dylai Aelodau unigol o'r Cyngor, yn ogystal â dilyn rheolau cyfrinachedd yn eu trafodaethau, osgoi eu rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle rhoddant yr argraff eu bod yn gweithredu fel llefarydd ar ran y Cyngor, heb gael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Cadeirydd.

Gwrthdrawiadau rhwng buddiannau

5 Mae'n hanfodol bod aelodau'r Cyngor yn osgoi, cyn belled â bod hynny'n rhesymol bosibl, sefyllfaoedd lle mae gwrthdaro rhwng buddiannau. Mewn sefyllfaoedd lle gall gwrthdaro rhwng buddiannau ddigwydd rhaid i Aelodau o'r Cyngor hysbysu'r Prif Weithredwr ac os bydd y gwrthdaro rhwng buddiannau'n cyffwrdd â materion sy'n ymwneud â busnes y Cyngor, rhaid iddynt roi gwybod i'r Cadeirydd. Cyfrifoldeb yr Aelod o'r Cyngor yw hysbysu'r Prif Weithredwr neu'r Cadeirydd.

6 Os bydd y Cyngor yn trafod pwnc yn ymwneud â sefydliad, corff neu unrhyw fater arall y gellir tybio bod gan Aelod o'r Cyngor fudd ynddo, dylai'r Aelod hwnnw ddatgan hyn i'r Cadeirydd a dylai adael y Cyngor tra bo'r drafodaeth yn parhau os bydd y Cadeirydd yn gofyn am hyn. Wrth wneud ei benderfyniad, bydd yn rhaid i'r Cadeirydd ystyried yr angen i sicrhau y gellid egluro presenoldeb yr Aelod o'r Cyngor yn ystod y drafodaeth yn hawdd a rhesymol i foddhad y cyhoedd.

7 Y Prif Weithredwr fydd yn gyfrifol am gynnal y gofrestr o fuddiannau Aelodau'r Cyngor. Caiff y gofrestr hon ei diweddaru'n flynyddol ac mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan CCAUC. Cyfrifoldeb pob Aelod o'r Cyngor yw sicrhau bod Clerc y

Cyngor yn cael ei hysbysu o unrhyw fudd ychwanegol a ddaw i'w ran/rhan yn ystod y flwyddyn a allai arwain at wrthdaro pellach.

8 Os bydd aelod yn methu â datgan budd neu'n methu â llenwi'r gofrestr buddiannau'n gywir, bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am drafod â'r adran noddi yn Llywodraeth Cynulliad Cymru a ddylai'r Aelod hwnnw o'r Cyngor barhau yn ei swydd.

9 Rhaid i Aelodau o'r Cyngor gydymffurfio â'r Polisi ar hawlio costau teithio a chynhaliaeth. Rhoddir copïau o'r rheolau hyn i aelodau'r Cyngor.

Derbyn Anrhegion, Lletygarwch a Gwobrau

10 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddyrannu symiau sylweddol o arian.

11 Mae'n hanfodol i'r Cyngor gynnal safonau uchel o briodoldeb a phroffesiynoldeb os cynigir anrhegion, lletygarwch neu wobrau iddynt.

12 Mae'n bosibl bod rhai Aelodau o'r Cyngor yn treulio amser gyda chynrychiolwyr sefydliadau a chyrff eraill lle mae'n arfer busnes cyffredin neu'n arfer cymdeithasol i gynnig anrhegion, lletygarwch neu wobrau. Gall cynigion o'r math hwn roi aelodau mewn lle anodd oherwydd y gall eu gwrthod beri camddealltwriaeth neu dramgwydd; ond gall eu derbyn godi cwestiynau o amhriodoldeb neu wrthdaro rhwng buddiannau, neu o atebolrwydd troseddol.

13 Rhaid i Aelodau o'r Cyngor beidio â derbyn unrhyw fudd fel cymhelliad neu wobr naill ai am:

a. gwneud rhywbeth (neu beidio â gwneud rhywbeth) yn rhinwedd ei swydd fel Aelod o'r Cyngor;

b. dangos ffafr (neu anffafr) tuag at unrhyw un yn rhinwedd ei swydd fel Aelod o'r Cyngor.

14 Yr egwyddorion arweiniol yw:

a. Rhaid i ymddygiad unigolion beidio â chreu amheuaeth o unrhyw wrthdaro rhwng eu dyletswydd swyddogol a'u buddiannau preifat.

b. Rhaid i weithredoedd unigolion yn rhinwedd eu swydd beidio â rhoi'r argraff (i unrhyw aelod o'r cyhoedd, i unrhyw gorff y maent hwy'n delio ag ef, neu i'w cydweithwyr) bod budd i ddangos ffafr neu anffafr i unrhyw berson neu gorff wedi (neu y gall fod wedi) dylanwadu arnynt

Anrhegion

15 Dylai anrhegion heblaw am rai o werth bach gael eu gwrthod neu eu hosgoi ar y cyfan. Dylai Aelodau o'r Cyngor gofrestru unrhyw anrheg yr amcangyfrifir ei bod yn werth mwy na £10. Hefyd dylai'r Aelod o'r Cyngor ystyried a yw anrheg, neu amgylchiadau ei rhoi, yn briodol. Y ffon fesur ar gyfer priodoldeb yw'r

perygl yr achosir embaras i'r Aelod neu CCAUC neu y collir ymddiried y cyhoedd ynddynt.

16 Os oes gan Aelodau o'r Cyngor unrhyw amheuon ynghylch a ddylai anrheg gael ei gwrthod (derbynnir, er enghraifft, y gall gwrthod anrheg beri tramgwydd), dylent ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a all ddewis trafod y mater gyda'r Cadeirydd.

17 Os yw'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol o'r farn na all anrheg gael ei defnyddio i gynnal busnes y Cyngor, gall awdurdodi'r Aelod o'r Cyngor i'w chadw. Neu os nad yw'r Aelod o'r Cyngor yn dymuno cadw'r anrheg, yna gellir trefnu iddi gael ei storio hyd nes y gellir ei throsglwyddo, er enghraifft i elusen.

18 Dylai Aelodau o'r Cyngor gofnodi unrhyw anrhegion a roddir neu a gynigir, pa un a ydynt yn cael eu gwrthod neu eu derbyn, yn y gofrestr ganolog a gedwir gan Glerc y Cyngor, a fydd hefyd yn cofnodi a yw'r anrheg wedi cael ei derbyn, ei chofrestru, ei gwrthod neu ei gwaredu. Dylai unrhyw Aelod o'r Cyngor y mae ganddo/ganddi ymholiad ynghylch cynnwys y gofrestr ei gyfeirio at Glerc y Cyngor.

Lletygarwch

19 Derbynnir y gall Aelodau o'r Cyngor dderbyn lletygarwch gan bennaeth neu aelodau uwch sefydliad; y gallant fynychu digwyddiadau a drefnir gan gyrff eraill at ddibenion hyrwyddo neu ddylanwadu fel rhan o'u dyletswyddau swyddogol ar ran CCAUC; y gallant weithiau gael cynnig ffi fach am gyflwyno papur neu araith mewn cynhadledd; ac y gallant dderbyn gwahoddiadau ambell waith i ddigwyddiadau diwylliannol. Gall y lefel arferol o letygarwch gynnwys diodydd meddwol yn ystod, dyweder, derbyniad swyddogol neu ginio gwaith.

20 Yn gyffredinol, dylid gwrthod cynigion o letygarwch sy'n fwy na'r hyn a ddisgrifir uchod. Dylid osgoi'r eitemau a ganlyn:

a. Lletygarwch a gynigir yn lle ffioedd ar gyfer darllediadau, areithiau, darlithiau neu waith arall a wneir.

b. Cymhellion a allai arwain at berthynas gytundebol rhwng y Cyngor a chyflenwr neu ymgynghorydd.

c. Cynigion sylweddol mewn perthynas â digwyddiadau cymdeithasol, teithio neu lety.

d. Derbyn prydau bwyd, tocynnau a gwahoddiadau i ddigwyddiadau chwaraeon, diwylliannol neu gymdeithasol, yn enwedig os ydynt o'r un ffynhonnell.

21 Os oes gan aelodau unrhyw amheuaeth ynghylch derbyn lletygarwch dylent gyfeirio'r mater at y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, a all yn ei dro ei drafod â'r Cadeirydd.

22 Os bydd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, yn eithriadol, yn cytuno bod yr amgylchiadau'n cyfiawnhau derbyn mwy na'r lefel arferol o letygarwch, cofnodir hyn yn y gofrestr ganolog.

Dyfarniadau a Gwobrau

23 Dylai Aelodau o'r Cyngor ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol os bydd corff allanol yn cynnig dyfarniad neu wobr iddynt y gellid mewn unrhyw ffordd ystyried ei fod yn gysylltiedig â'u rôl fel Aelodau o'r Cyngor. Caniateir iddynt gadw'r dyfarniad neu wobr fel rheol ar yr amod:

a. Ei fod yn cael ei gynnig i gydnabod cyflawniad personol.

b. Nad yw'n anrheg (gweler uchod).

24 Wrth benderfynu a fyddai'r dyfarniad yn arwain at feirniadaeth gyhoeddus ei fod mewn gwirionedd yn anrheg, cynghorir aelodau i ystyried:

a. Statws y corff dyfarnu – er enghraifft, a yw'n elusen gofrestredig, yn SAU a gyllidir neu'n gorff perthynol.

b. Rheoleidd-dra a natur y dyfarniadau a wneir gan y corff.

c. Yr amrywiaeth o bobl neu gyrff y rhoddir y dyfarniadau iddynt.

d. Y dull dewis.

e. Statws y dewiswyr.

f. Ymwneud gwirioneddol neu bosibl y Cyngor â'r corff dyfarnu.

Nid yw'r darpariaethau hyn yn effeithio ar dderbyn Anrhydeddau.